**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 5 Rhagfyr 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A M Day | C L Philpott | K M Griffiths |
| W G Lewis | H M Morris | |

**Hefyd yn Bresennol**

Louise Gibbard Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Damian Rees | Prif Swyddog Diogelu a Pherfformiad |
| Gemma Whyley | Prif Swyddog Trawsnewid |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wy): S M Jones a/ac E T Kirchner

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd Cheryl Philpott fuddiant personol.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2022 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Diweddariad ar Raglen Wella a Monitro Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Rhoddodd Gemma Whyley, Prif Swyddog Trawsnewid, ddiweddariad i'r Panel ar y Rhaglen Wella a rhoddodd Julie Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ddiweddariad i'r Panel ar yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer mis Hydref 2022.

Pwyntiau Trafod:

- Roedd y Panel yn falch o glywed am yr Academi Gwaith Cymdeithasol ac yn teimlo’i bod yn hynod arloesol.
- Gofynnodd y Panel am niwroamrywiaeth a'r effaith y mae'r ôl-groniad o ran diagnosis yn ei chael. Clywyd bod rhestrau aros ar gyfer asesiadau diagnostig ar draws Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi cyllid ychwanegol i bartneriaethau rhanbarthol, ond mae'n annhebygol y bydd yn cael llawer o effaith ar amserau aros.
- Mae diffyg dybryd o weithwyr cymdeithasol o hyd ac nid oes unrhyw arwydd bod hyn yn dod i ben.
- Mewn cyfarfod blaenorol, roedd y Panel wedi gofyn am am ffigurau ar gyfer nifer y plant sy'n derbyn gofal nad ydynt yn derbyn gofal yng Nghymru. Cadarnhaodd swyddogion, o'r 479 o blant sy'n derbyn gofal, fod 112 ohonynt yn byw mewn awdurdodau cyfagos, 52 yn byw mewn awdurdodau eraill yng Nghymru, 20 yn byw yn Lloegr ac 1 yn byw yn yr Alban gydag aelodau o’i deulu.
- Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal y tu allan i Gymru'n cynyddu. Un o'r rhesymau dros hyn yw diffyg y lleoliadau addas yng Nghymru, yn rhannol oherwydd rhaglen ‘dileu’ elw Llywodraeth Cymru, sy'n golygu bod rhai darparwyr yn pryderu am eu dyfodol yng Nghymru.
- Nododd y Panel fod llawer o eitemau yn yr Adroddiad Perfformiad yn dweud 'adroddiad i'w lunio'. Fe'i hysbyswyd bod hyn yn rhannol oherwydd y newid i System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, bu’n rhaid datblygu systemau ac mae'r ffocws wedi bod ar ddata craidd a gwybodaeth ac mae'r bylchau'n geisiadau newydd yn bennaf.  Un o'r heriau mwyaf yw dilysu'r data ac mae hwn yn cymryd amser.
- Holodd Panel ynghylch ystyr ymholiad Adran 47 a chlywodd mai dyma'r cam ymchwilio. Mae'n nodi'r fframwaith y mae angen i bob asiantaeth ei ystyried.
- Nododd y Panel fod nifer yr achosion sy’n aros i gael eu neilltuo’n cynyddu. Cadarnhaodd swyddogion fod rhagor o achosion yn codi a’u bod yn aros am ragor o staff i ddechrau eu swyddi Cymorth Cynnar er mwyn neilltuo’r rhain iddynt.
- Yn yr Adroddiad Perfformiad, mae'n nodi, 'Mae prosesau AD yn parhau i lesteirio llenwi swyddi gwag yn gyflym er mwyn atal rhestrau aros'. Clywyd bod yr adran yn cynnal trafodaethau â'r Adran AD Corfforaethol ac arweiniodd gyfuniad o drosiant nifer y swyddi o fewn yr awdurdod a materion gallu mewn perthynas ag Oracle Fusion at ôl-groniad yn y ganolfan gwasanaethau. Oherwydd hyn, mae'r adran wedi cael sicrwydd y daliwyd i fyny â'r holl ôl-groniad a bydd adnoddau'n canolbwyntio ar y swyddi mwyaf brys, gan gynnwys swyddi gwag y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

- Mae gan yr adran tua 169 o swyddi gwag a 12 o aelodau staff asiantaeth. Roedd y Panel yn bryderus ynghylch nifer y swyddi gwag ar draws y gwasanaeth, ac ynghylch y sefyllfa yn y gorffennol gyda diffyg staff a staff asiantaeth nad ydynt yn deall sefyllfaoedd yn llawn. Roedd y Panel yn teimlo, wrth i'r Academi gael ei sefydlu, fod yr adran yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â'r broblem hon.

## 6 Diweddariad gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Roedd David Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bresennol i friffio'r Panel ar yr eitem hon ac ateb cwestiynau.

Pwyntiau Trafod:

- Clywodd y Panel am gyfleoedd y Rhwydwaith Eiriolaeth Rhieni (RhERh) a theimlodd fod y ffaith bod y gwasanaeth yn cael ei lywio gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwnnw'n fuddiol iawn.
- Gofynnodd y Panel a oedd yr adran yn hapus bod y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn gweithio cystal ag y dylai fod. Clywyd bod heriau a chymhlethdodau o ran gweithio ar sail ranbarthol yn hytrach na chael bwrdd lleol, ond mae hefyd yn darparu cyfleoedd gwell. Clywodd y Panel hefyd fod lefel dda o sicrwydd yn gyffredinol gan fod gennym ein bwrdd diogelu corfforaethol ein hunain; gan ein bod wedi cael adborth da gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch y trefniadau; gan fod ein Pwyllgor Archwilio'n dangos ddiddordeb; gan ein bod wedi derbyn arolygiad da gan Estyn a nododd fod hyn yn gadarnhaol a chan ein bod wedi cael adborth da mewn adroddiadau AGC ar ddiogelu.

## 7 Adroddiad Blynyddol yr Uned Diogelu ac Ansawdd

Roedd Damian Rees, Prif Swyddog Diogelu a Pherfformiad, yn bresennol i friffio'r Panel ynghylch Adroddiad Blynyddol yr uned hon ar gyfer 2021-22 ac i ateb cwestiynau'r Panel.

Pwyntiau Trafod:

- Roedd y Panel yn falch o weld gostyngiad yn nifer yr ailgofrestriadau o fewn 12 mis ar y gofrestr amddiffyn plant a gostyngiad yn nifer y plant sy'n dod oddi arni ar ôl yr adolygiad cyntaf. Mae hyn yn galonogol iawn.
- Gofynnodd aelodau'r Panel a edrychir ar y Cynlluniau Addysg Unigol pan maent yn edrych ar adolygiadau cynlluniau personol. Fe'u hysbyswyd yr edrychir ar Gynlluniau Addysg Unigol yn ystod pob adolygiad plant sy'n derbyn gofal os yw'r plentyn mewn addysg o hyd.
- Teimlai'r Panel fod y drafodaeth ynghylch Swyddogion Adolygu Annibynnol (SAAau) yn ddefnyddiol iawn ac edrychir ar hyn eto mewn blwyddyn.

## 8 Rhaglen Waith 2022-23

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Camau Gweithredu:

- Caiff y Cyng. Mary Jones ei gwahodd ar gyfer yr eitem ar CAMHS fel Cadeirydd yr ymchwiliad craffu blaenorol.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.30 pm